**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA dydd Iau, 3 mis Tachwedd, 2016 am 10.00 am**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Sir P. Jones (Cadeirydd)
Cynghorydd Sir P. Farley (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Sir: P. Clarke, L. Guppy, R. Harris, M. Hickman, D. Jones & M. Powell.

**Aelodau Ychwanegwyd:**

**Aelodau'n pleidleisio ar faterion addysg yn unig:**

Mr. M Fowler (Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr)

**Aelodau Ychwanegwyd: Heb Bleidlais:**

Mr. K Plow (Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion)

Mynychodd y Cynghorwyr Sir A. Easson a V. Smith y cyfarfod drwy wahoddiad y Cadeirydd.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Claire Marchant | Chief Officer Social Care, Health & Housing |
| Will Mclean | Head of Democracy, Engagement and Improvement |
| Sharon Randall-Smith | Head of Achievement and Attainment |
| Mark Howcroft | Assistant Head of Finance |
| Nikki Wellington | Finance Manager |
| Tyrone Stokes | Accountant |
| Annette Evans | Customer Relations Manager |
| Andrew Evans | Senior Management Accountant |
| David Barnes | Data and Information Systems Officer |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sir D. Blakebrough

1. **Croeso**

Ar ran y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc, estynnodd y Cadeirydd groeso i Kerry Cole, Prif Swyddog Addysg, Cyngor Bwrdeisdref Sirol Caerffili, i'r cyfarfod.

2. **Datganiadau o Fuddiant**

Gwnaeth y Cyngorydd Sir P. Farley ddatganiad buddiant personol, heb fod yn rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau, yng nghyswllt eitem agenda 7 - cyflwyniad ar

ysgolion gyda chyllideb ddiffyg a phroses cynllun adfer, gan ei fod yn Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol ar Ysgolion Cynradd The Dell a Cas-gwent.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir L. Guppy ddatganiad buddiant personol heb fod yn rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau, yng nghyswllt eitemau agenda 5 - Cynllun Strategol Addysg Cymraeg, gan fod ganddi berthnasau sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir R. Harris ddatganiad buddiant personol heb fod yn rhagfarnu yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau, yng nghyswllt eitemau agenda: 6 - Adroddiad blynyddol cwynion, sylwadau a chanmoliaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, 7 - Cyflwyniad ar ysgolion mewn cyllideb ddiffyg o'r cyfarfod blaenorol, gan y soniwyd am y Panel Maethu a'i fod yn aelod o'r panel hwn, defnyddiwyd Ysgol Gynradd Deri View fel enghraifft o adferiad llwyddiannus o gyllideb ddiffyg ac mae'n llywodraethwr Ysgol Gynradd Deri View.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir D.W.H. Jones ddatganiad buddiant personol heb fod yn rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau yng nghyswllt eitem agenda 5 - Cynllun Strategol Addysg Gymraeg gan ei fod yn llywodraethwr Ysgol Gymraeg y Fenni, mae ei ferch yn gweithio yno a'i wyres yn mynychu'r ysgol. Mae hefyd yn llywodraethwr ar Ysgol Gynradd Llanfihangel Crucornau ac mae ei ŵyr yn mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir P. Jones ddatganiad buddiant personol yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau, yng nghyswllt eitem agenda 6 -Adroddiad Blynyddol Cwynion, Sylwadau a Chanmoliaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, gan ei bod yn aelod o'r Panel Mabwysiadu.

Gwnaeth y Cynghorydd M. Powell ddatganiad buddiant personol heb fod yn rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau, yng nghyswllt eitem agenda 8 - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 2016/17, gan ei bod yn llywodraethwr Ysgol Brenin Harri VIII.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir A. Easson ddatganiad buddiant personol heb fod yn rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau, yng nghyswllt eitem agenda 7 - Cyflwyniad ar ysgolion mewn cyllideb ddiffyg a'r broses cynllun adfer, gan ei fod yn Llywodraethwr Awdurdod Lleol yn Ysgol Gymraeg y Ffin.

### 3. <u>Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol</u>

Cafodd cofnodion cyufarfod y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc dyddiedig 6 Hydref 2016 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd yn amodol ar y gwelliant dilynol i Gyfnod 3 - Datganiad Rhagolwg All-dro Montiro Refeniw a Chyfalaf Cyfnod 201/17, casgliad y Pwyllgor, pwynt bwled 5 ar dudalen 5 y cofnodion:

Steve Davies (Llywodraeth Cymru)

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA dydd Iau, 3 mis Tachwedd, 2016 am 10.00 am**

4. **Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 2016/17 (i ddilyn).**

**Cyd-destun**

Rhoi'r data diweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor Data yn dangos gwybodaeth ar gyrhaeddiad addysgol y maent ei angen i ddal gwasanaethau i gyfrif. Mae hyn yn cynnwys:

- Perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

- Dadansoddiad, lle'n bosibl, o berfformiad ar draws pob cyfnod allweddol ar gyfer y grwpiau dilynol:

  - Merched a Bechgyn.

  - Disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

**Maerion allweddol:**

- Mae'r adroddiad yn dod ynghyd â'r negeseuon pennawd o nifer o ddadansoddiadau mwy manwl.

- Mae'r adroddiad yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth yn galluogi Aelodau i ddrilio lawr o ddata awdurdod lleol i ffigurau ar gyfer grwpiau o ddysgwyr penodol.

- Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr data yn rhoi cymariaethau yn ôl i 2011/12, sef y flwyddyn academaidd yn union cyn yr arolwg llawn diwethaf gan Estyn. Bu gwelliant amlwg mewn dangosyddion pennawd dros y pum mlynedd ddiwethaf.

- Mae'r adroddiad yn galluogi'r Pwyllgor Dethol i edrych tu hwnt i'r mesurau lefel uchel ar rai o'r manylion o dan hynny.

**Cyfnod Sylfaen**

- Gwelodd Sir Fynwy ostyngiad bach o 0.1 pwynt canran yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen gyda 91.7% o ddisgyblion yn cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen, o gymharu gyda 91.8% yn 2014/15 a 86.8% yn 2011/12.

- Er y gostyngiad mewn perfformiad, mae Sir Fynwy wedi symud i fyny un lle i fod yn 1af yn safle awdurdodau lleol Cymru ar gyfer y Dangosydd Cyfnod Sylfaen.

- Yn 2015 mae perfformiad wedi gostwng ar y lefel ddisgwyliedig (O5+), ac eithrio cynnydd mewn Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn Gymraeg ar O5+.
- Mae'r perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig (O6+) wedi cynyddu ar draws pob dangosydd.

- Mae Sir Fynwy yn parhau i fod ymysg y tri awdurdod sy'n perfformio orau yng Nghymru ar gyfer pob maes dysgu ac eithrio Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg Iaith Gyntaf.

**Cyfnod Allweddol 2**

- Mae perfformiad yn parhau i wella, gyda 94.1% o ddisgyblion yn cyflawni dangosydd pwnc craidd Cyfnod Allweddol 2 yn 2014/15, o gymharu â 86.3% yn 2011/12 a 92.5% yn 2015. Mae Sir Fynwy yn dal i fod y 1af yng Nghymru ar gyfer dangosydd pwnc craidd Cyfnod Allweddol 1.

- Mae perfformiad mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn parhau i wella ar lefel 4+ y cwricwlwm a ddisgwylid a lefel uwch 5+.

- Mae Sir Fynwy yn y safle 1af yng Nghymru ar gyfer pob dangosydd ac eithrio Cymraeg Iaith Gyntaf.

**Cyfnod Allweddol 3**

- Mae perfformiad yn parhau i wella er ar gyfradd arafach nag ar draws Cymru yn gyffredinol. Yn 2015/16 cyflawnodd 91.9% o ddisgyblion Ddangosydd Pwnc Craidd Cyfnod Allweddol 3 o gymharu gyda 90.8% yn 2015 a 77.7% yn 2011/12.

- Mae Sir Fynwy bellach yn 3ydd yng Nghymru ar gyfer Dangosydd Pwnc Craidd Cyfnod Allweddol 3.

- Mae perfformiad ar draws Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn parhau i wella ar lefel 5+ ddisgwyliedig y cwricwlwm ac ar lefel uwch 6+.

- Mae Sir Fynwy bellach yr 2il yng Nghymru ar gyfer Saesneg ar Gyfnod Allweddol 3, 3ydd ar gyfer mathemateg a 4ydd ar gyfer gwyddoniaeth.

**<u>Craffu Aelodau:</u>**

- Bydd data Cyfnod Allweddol 4 a 5 ar gael yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Dethol yn cynnwys data am oedolion agored i niwed.

- Mae'r bwlch perfformiad rhwng merched a bechgyn ar gyfnodau allweddol 2 a 3 yn cau. Fodd bynnag, mae'r bwlch wedi tyfu ar y cyfnod sylfaenol. Felly, roedd angen ymchwilio'r mater hwn er mwyn sicrhau fod ymgysylltu cyfartal yn cael ei roi i bob myfyriwr.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA dydd Iau, 3 mis Tachwedd, 2016 am 10.00 am**

- Mae cyflawniadau Lefel Ddisgwyliedig (Deilliant 5+) Prydau Ysgol am Ddim 2016 yn is na 2014 a 2015. Hysbyswyd y Pwyllgor Dethol pan edrychid ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae 111 o ddisgyblion sy'n ddisgyblion prydau ysgol am ddim o fewn y grŵp hwnnw. O'r 111 disgybl yma, dim ond 21 disgybl na chyflawnodd y Dangosydd Cyfnod Sylfaen a byddai'r gwahaniaeth mewn perfformiad wedi ei gydnabod o fewn y targedau lefel disgyblion. Felly, ni fyddid wedi rhagweld efallai na fyddai'r perfformiad mor uchel eleni o gofio am natur y garfan. Nodwyd y bydd manylion o'r fath ar gael mewn adroddiad mwy manwl a gyflwynir i gyfarfod o'r Pwyllgor Dethol yn y dyfodol.

- Bu perfformiad cyson a chryf a gwelliant mewn perfformiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Fodd bynnag, ni chafodd hynny o reidrwydd ei gynnal i Gyfnod Allweddol 3 ond bu gwelliannau. Mae clystyrau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd ond mae angen sicrhau fod plant yn parhau â'u dysgu o'r diwrnod y maent yn dechrau yn yr ysgol uwchradd i pan adawant ar ddiwedd tymor yr haf. Mae llawer o'r clystyrau'n dechrau gweithio ym Mlwyddyn 6 ac yn parhau i Flwyddyn 7, gan fod hwn yn adeg pan gall perfformiad ostwng.

- Ers 2012, bu cynnydd sylweddol mewn gwelliant ar Gyfnod Allweddol 3 yn mynd i Gyfnod Allweddol 4 ac mae'n faes y mae'r Awdurdod yn dal i ganolbwyntio arno.

- Caiff arfer da ei rannu ymysg ysgolion.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd yng nghyswllt y Cyfnod Sylfaen - yn ôl rhywedd parthed Deilliant 5+, nodwyd y rhoddir mwy o fanylion mewn adroddiad i'r Pwyllgor Dethol yn y dyfodol.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd fod pob ysgol uwchradd yn rhoi cefnogaeth briodol ar gyfer disgyblion pan fyddant yn pontio rhwng y cyfnodau allweddol.

- Chwartelau meincnod ar gyfer Dangosydd Pwnc Craidd (Lefel Ddisgwyliedig L4+) - Mae'r newidiadau o chwartel 1 i chwartel 3 yn dangos sut mae ysgolion Sir Fynwy yn cymharu gydag ysgolion eraill tebyg.

**<u>Casgliad y Pwyllgor:</u>**

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb fel sy'n dilyn:

- Bu gwelliant cadarn mewn perfformiad ysgolion ers 2012. Dylid cydnabod holl staff ysgolion yr Awdurdod ar gyfer y gwelliant yma.

- Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at dderbyn yr adroddiad nesaf mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol fydd yn rhoi mwy o eglurdeb a mwy o fanylion am y data a roddir.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA dydd Iau, 3 mis Tachwedd, 2016 am 10.00 am**

5. **Monitro Refeniw a Chyfalaf 2016/17 Datganiad Rhagolwg Alldro Cyfnod 2.**

**Cyd-destun**:

- Rhoi gwybodaeth ar raolwg sefyllfa all-dro refeniw yr Awdurdod ar ddiwedd cyfnod 2 sy'n cynrychioli gwybodaeth ariannol mis 6 ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17.

- Asesu os yw'r gyllideb yn cael ei monitro'n effeithlon.

- Monitro i ba raddau y caiff cyllidebau eu gwario yn unol â'r gyllideb a'r fframwaith polisi a gytunwyd.

- Herio os yw amcan gorwariant neu danwariant yn rhesymol.

- Monitro cyflawni enillion effeithiolrwydd a ragwelir neu gynnid yng nghyswllt cynigion am arbedion.

**Argymhellion a gynigiwyd i'r Cabinet:**

- Bod y Cabinet yn nodi maint rhagolwg gorwariant refeniw ar gyfnod 2 o £839,000, gwelliant o £529,00 ar y sefyllfa a adroddwyd yn flaenorol yng nghyfnod 1.

- Bod y Cabinet yn disgwyl i Brif Swyddogion barhau i adolygu lefelau gorwariant a thanwariant ac ailddyrannu cyllidebau i ostwng faint o sefyllfaoedd gwneud iawn sydd angen eu hadrodd o fis 6 ymlaen.

- Bod y Cabinet yn gwerthfawrogi maint amcan defnydd cronfeydd wrth gefn ysgolion a disgwyliad y bydd pedair ysgol arall mewn sefyllfa ddiffyg erbyn diwedd 2016-17.

- Bod y Cabinet yn cymeradwyo defnydd gydag amodau o gronfeydd cadw i gyllido £318,000 o gostau tribiwnlys cyflogaeth os na all cyllideb y Cyngor amsugno effaith y gwariant anghyffredin hwn dros chwe mis gweddilliol y flwyddyn ariannol.

- Bod y Cabinet yn ystyried y monitro cyfalaf, gorwariant a thanwariant penodol, a bod y Cabinet yn cydnabod y risg sy'n gysylltiedig gyda gorfod dibynnu ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf yn y flwyddyn gwerthu a'r potensial i hyn gael pwysau sylweddol ar refeniw os caiff derbyniadau eu gohirio ac y gall fod angen benthyca dros dro.

**Craffu aelodau:**

- Pan mae ysgol yn cau, daw unrhyw gyllideb dros ben yn ôl i'r awdurdod lleol i gael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion addysgol.

- Mae Ysgolion Cynradd Drenewydd Gellifarch a Thryleg yn cario symiau eithaf sylweddol ymlaen. Nodwyd y bu Ysgol Gynradd Drenewydd Gellifarch yn eithaf llwyddiannus yn cynhyrchu incwm, sicrhawyd arbedion a bu'r ysgol yn ddarbodus wrth ddyrannu adnoddau. Mae swyddogion wedi cwrdd â'r ysgol i drafod sefydlu cynllun buddsoddi ar gyfer y gwarged. Bu Ysgol Gynradd Tryleg yn llwyddiannus

gyda'i grantiau hefyd. Mae'r ysgol, ynghyd ag Ysgol Gynradd Drenewydd Gellifarch, yn rhan o rwydwaith ysgolion arloesi lle maent yn derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fedru datblygu'r cwricwlwm. Mae ysgolion Cil-y-coed a Gilwern hefyd yn rhan o'r rhwydwaith ysgolion arloesi'r fargen newydd, felly gallai fod peth amrywiad yng nghyllidebau'r ysgolion hyn hefyd.

- Mae 10 o ysgolion Sir Fynwy yn debyg o fod mewn cyllideb ddiffyg. Fodd bynnag, mae'r swyddogion wedi codi'r drafodaeth ar ysgolion yn dal cyllidebau gwarged mawr. Ym mis 9 gobeithir y gwelir gwelliant lle bydd ysgolion gobeithio yn derbyn mwy o grantiau. Mae'r awdurdod lleol wedi cael gwybodaeth well gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) yng nghyswllt cyllid y mae'n ei ddosbarthu i ysgolion Sir Fynwy. Rhagwelir y bydd cynlluniau gwariant yr ysoglion yn newid drwy gydol y flwyddyn.

- Mae'n anodd rhagweld balansau ysgolion. Mae swyddogion yn gweithio gyda EAS a Llywodraeth Cymru i gael sicrwydd cyllid ynghynt fydd yn rhoi gwybodaeth well ar gyfer rhagolygon yr Awdurdod. Caiff ysgolion eu hannog i gael llai o gyllideb warged.

- Mae ysgolion yn gweithio'n dda ar lefel clwstwr. Mae'n bwysig cynyddu i'r eithaf y gwerth a aiff i ddisgyblion. Bydd newidiadau i'r Grant Amddifadedd Disgyblion y flwyddyn newydd yn golygu y bydd angen i glystyrau gydweithio'n agosach i gefnogi'r gwaith i'r cam uwchradd.

- Datblygwyd Cynllun Gwella Llys fydd maes o law yn trafod y materion am orwariant cyson ar gostau cyfreithiol a dyna bedwerydd piler y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Plant.

**<u>Casgliad y Pwyllgor</u>**

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb fel sy'n dilyn:

- Ar ran y Pwyllgor Dethol, diolchodd y cadeirydd i swyddogion am gyflwyno'r adroddiad.

- Bydd y Pwyllgor Dethol yn derbyn diweddariad ar gyllidebau ysgolion mewn tri i bedwar mis.

**6. <u>Cynllun Strategol Addysg Gymraeg (i ddilyn).</u>**

**<u>Cyd-destun</u>**

- Craffu ar Ddrafft Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 Cyngor Sir Fynwy.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA dydd Iau, 3 mis Tachwedd, 2016 am 10.00 am**

- Ymgynghori gyda'r Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc parthed yr adroddiad fel rhan o'r cyfnod ymgynghori wyth ysgol statudol gyda phob partner allweddol ac ymgyngoreion statudol.

**<u>Materion Allweddol:</u>**

- Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw cael miliwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru erbyn 2050 ac er mwyn cyflawni hyn bydd angen y camau dilynol:
  - mwy o blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg.
  - gwell cynllunio yng nghyswllt sut mae pobl yn dysgu'r iaith.
  - mwy o gyfleoedd hygyrch i bobl ddefnyddio'r iaith.
  - seilwaith cryfach a chwyldro i wella darpariaeth ddigidol yn y Gymraeg.
  - newid yn y ffordd y siaradwn amdani.

- Mae addysg yn un o'r sbardunau allweddol i wireddu'r weledigaeth hon drwy sicrhau fod plant yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg yn ifanc i greu siaradwyr newydd y dyfodol.

- WESP yw'r ddogfen strategol allweddol ar gyfer awdurdodau lleol i gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Cymraeg dros y tair blynedd nesaf.

- Mae WESP yn parhau i fod â ffocws ar y pum deilliant yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2000 sef :

  - mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng Gymraeg fel canran o gohort Blwyddyn 2.
  - mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith pan fyddant yn symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.
  - mwy o ddysgwyr yn astudio am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.
  - mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
  - mwy o ddysgwyr gyda sgiliau gwell yn y Gymraeg.

- Yn ychwanegol, mae angen i awdurdodau lleol drin safonau cyrhaeddiad yn y Gymraeg a Chymraeg Ail Iaith, darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol a chynllunio gweithle, a datblygiad proffesiynol parhaus.

- Mae'n rhaid cyflwyno cynllun WESP terfynol i Lywodraeth Cymru erbyn 20 Rhagfyr 2016, i'w weithredu o 1 Ebrill 2017.

**<u>Craffu Aelodau:</u>**

- Mae WESP yn gynllun tair blynedd. Mae'n uchelgeisiol ond mae'n rhaid i'r Awdurdod geisio annog cynifer o rieni ag sydd modd i o leiaf ystyried y gwerthoedd y medrid eu cyflawni o addysg cyfrwng Cymraeg yn hytrach nag addysg Saesneg yn unig.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA dydd Iau, 3 mis Tachwedd, 2016 am 10.00 am**

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol am bryderon rhieni yng nghyswllt yr angen a'r gost o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg, nodwyd fod yn rhaid i ni fel Awdurdod dderbyn os nad ydym yn hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg, yna y byddai'n dybiaeth resymol na fyddai rhieni yn gwerthfawrogi addysg cyfrwng Cymraeg yn yr un ffordd â siroedd eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, unwaith mae hynny'n digwydd, mae'r gwir alw am addysg cyfrwng Cymraeg yn cynyddu'n eithaf cyflym. Mae mwy o rieni yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd manteision bod yn ddwyieithog.

- Fel Awdurdod, mae'n rhaid i ni gydymffurfio gyda'r gofynion statudol sy'n bodoli yng nghyswllt darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a dyma'r hyn yr ydym ni, fel Awdurdod, eisiau ei ddarparu.

- Ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor Dethol yn y dyfodol, gallai fod yn ddefnyddiol derbyn adroddiad ar ddysgu ieithoedd yn gyffredinol, gan y gall fod angen ailfeddwl am ein blaenoriaethau yn nhermau ein gallu i gynnal ein hunain mewn byd yn dilyn Brexit.

- Adran 2 WESP yn trafod Cludiant - mynegodd Aelod o'r Pwyllgor Dethol bryder nad oedd yr adran hon o'r adroddiad yn ddigon cryf ac y dylai'r geiriad yn 2.2 fod yn gryfach parthed mynediad i gludiant ôl-16. Nodwyd nad yw'r polisi presennol yn darparu cludiant i ddysgwyr ôl 16. Fodd bynnag, fel rhan o'r ymgynghoriad, mae'n iawn ystyried os yw'r polisi yn briodol a bydd hyn yn ffurfio rhan o'r broses ymgynghori. Hefyd, mae'r cyrsiau y mae pobl ifanc angen cael mynediad iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd fod y Polisi Cludiant Cartref i Ysgol yn fater cymhleth yn Sir Fynwy. Mae swyddogion yn edrych sut y bydd yn gweithio yn y dyfodol fel rhan o ddarn ehangach o waith am heriau cludiant cartref i ysgol.

- Mynegodd Aelod o'r Pwyllgor Dethol ei gonsyrn a chonsyrn nifer o breswylwyr y gallai'r Awdurdod fod yn rhoi gormod o gyllid i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg ac y gallai'r arian gael ei wario'n well mewn man arall yn y sector addysg. Nodwyd y gellid codi'r mater hwn fel rhan o'r broses ymgynghori.

- Bydd cost darparu'r WESP ar gael ar gam drafft terfynol o ddogfen.

- Manylion cyllid fesul disgybl ar gyfer 2016/17:

  - Cyfrwng Cymraeg - £2252
  - Cyfrwng Saesneg - £2203

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd fod peth capasiti yn Ysgol y Fenni ac Ysgol y Ffin. Roedd yr Awdurdod yn ansicr ar hyn o bryd parthed y cynnydd yn y galw posibl a allai ddigwydd nawr fod ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd. Gan fod yr ysgol bellach wedi'i sefydlu a disgyblion o Sir Fynwy yn ei mynychu, gallai'r capasiti yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg newid. Cedwir golwg agos ar y galw.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA dydd Iau, 3 mis Tachwedd, 2016 am 10.00 am**

**Casgliad y Pwyllgor:**

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb fel sy'n dilyn:

- Diolchodd i'r swyddogion am gyflwyno'r adroddiad.
- Bod y swyddogion yn rhoi ystyriaeth i'r pwyntiau a godwyd yng nghyswllt WESP cyn cyhoeddi'r drafft terfynol.
- Byddai'r Pwyllgor Dethol yn argymell adolygu'r polisi cludiant Cartref i Ysgol.

7. **Cyflwyniad ar ysgolion mewn cyllideb ddiffyg a'r broes cynllun adfer.**

**Cyd-destun**

Derbyniodd y Pwyllgor Dethol gyflwyniad am wybodaeth ar y broses cynllun adfer ar gyfer ysgolion Sir Fynwy.

**Materion Allweddol:**

Mae'r Cynllun ar gyfer cyllido ysgolion - diweddarwyd Hydref 2016 yn dweud:

Lle mae gan ysgol falans diffyg ar ddiwedd y flwyddyn, caiff diffyg o'r fath ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Bydd yn ofynnol i gyrff llywodraethu roi adroddiad i'r awdurdod ar y mesurau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ddileu'r diffyg, dros uchafswm o dair blynedd. Gall yr Awdurdod gytuno i gynyddu'r cyfnod i alluogi ysgolion i gael adferiad, fodd bynnag, bydd angen i hyn gael ei gytuno gyda'r Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc. Mae'n rhaid cyflwyno'r cynlluniau hyn o fewn tair wythnos ar ôl adrodd diffyg i'r awdurdod yn gyntaf. Caiff y cynllun ei fonitro o leiaf bob tymor ond mewn achosion sylweddol caiff hyn ei fonitro'n fisol. Mae gan yr awdurdod hawl i ddileu'r gyllideb ddirprwyedig a phwerau'r corff llywodraethu os na ddilynir y cynllun.

Aiff ymlaen i ddweud:

Ni fydd yr awdurdod yn dileu balans diffyg mewn unrhyw ysgol.

**Craffu aelodau:**

- Ysgolion gyda chyllideb gwarged - nodwyd y gall yr Awdurdod adfachu cyllid o ysgolion gyda gwargedion uchel a defnyddio'r arian hwn ar gyfer dibenion addysg. Dylai ysgolion gyda gwarged fod yn gwario'r gyllideb a ddyrannwyd iddynt yn llawn yn synhwyrol.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd fod cyllideb nodweddiadol ar gyfer ysgol gynradd 210 rhwng £600,000 a £700,000 y flwyddyn a chyllideb nodweddiadol ysgol uwchradd rhwng £4,000,000 a £6,000,000 y flwyddyn. Mynegwyd pryder am y ffyrdd y caiff ysgolion eu llywodraethu a'r anfanteision a brofant sy'n aml yn gadael cyrff llywodraethu gyda 'eu dwylo wedi clymu'.

**<u>Casgliad y Pwyllgor:</u>**

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb fel sy'n dilyn:

- Diolchodd i swyddogion am gyflwyno'r adroddiad.
- Dylid e-bostio'r cyflwyniad i'r Pwyllgor Dethol.
- Ail-gadarnhawyd pwysigrwydd hyfforddiant parhaus i lywodraethwyr.
- Mae cyfathrebu gydag ysgolion yn hollbwysig.

8. **<u>Adroddiad Blynyddol Cwynion, Sylwadau a Chanmoliaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Plant.</u>**

**<u>Cyd-destun</u>**

Rhoi trosolwg o nifer a mathau cwynion, sylwadau a chanmoliaeth a gafodd eu derbyn a'u trin parthed Gwasanaethau Cymdeithasol Plant o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016.

**<u>Materion Allweddol:</u>**

- Mae'n ofynnol i Wasanaethau Cymdeithasol pob awdurdod lleol ddilyn Rheoliadau Gweithdrefn Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014.
- Cyhoeddir canllawiau hefyd dan Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970. Mae hyn yn golygu fod yn rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio gydag ef.
- Derbyniwyd pedwar sylw am Gwasanaethau Plant.
- Derbyniwyd 14 neges canmoliaeth yn ymwneud â Gwasanaethau Plant.
- Derbyniwyd 25 cwyn yn ymwneud â Gwasanaethau Plant.

**<u>Craffu Aelodau:</u>**

- Roedd yn dda nodi mai dim ond 25 cwyn a dderbyniwyd o ystyried fod Gwasanaethau Plant yn wasanaeth prysur iawn gyda phroblemau cymhleth.

- Yn dilyn yr adroddiad, mae'r Prif Swyddog yn adolygu'r cwynion gyda golwg ar ganfod ffyrdd i ostwng nifer y cwynion yn y dyfodol.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd fod gan blant fynediad i wasanaethau eiriolaeth.

- Mae'n bwysig fod llais gan bobl ifanc.

**<u>Casgliad y Pwyllgor:</u>**

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb  fel sy'n dilyn:

- Diolchodd i'r swyddogion am gyflwyno'r adroddiad..

- Bydd hyfforddiant a chyfathrebu a'r newidiadau o fewn yr adran yn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

**9. <u>Rhestr camau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod blaenorol.</u>**

Cafwyd y rhestr o gamau gweithredu yn deillio o gyfarfod Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2016. Drwy wneud hynny, nodwyd y pwyntiau dilynol:

Monitro Refeniw a Chyfalaf 2016/17 Datganiad Rhagolwg All-dro Cyfnod 1.

Bydd y Cadeirydd a Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid, yn cwrdd ar ôl y cyfarfod i ffurfio rhai cwestiynau yng nghyswllt y diffyg cyllid parthed y gyllideb Diogelu Plant a Plant sy'n Derbyn Gofal.

Bydd y Cadeirydd hefyd yn cwrdd gyda Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid, i lunio llythyr at Lywodraeth Cymru i amlygu pryderon y Pwyllgor Dethol ar gyfer y dyfodol.

Adroddiad Blynyddol Cynnig Integredig i Ieuenctid Sir Fynwy

Ar ôl y cyfarfod, bydd y Cadeirydd a'r Pwyllgor Craffu yn cwrdd gyda Josh Klein, Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid newydd, i drafod y broses craffu.

Cyfarfod arbennig - Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a Phwyllgor Dethol Oedolion - 22 Tachwedd 2016.

Trafod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol, yn neilltuol Rhan 11, sy'n cyfeirio at y dimensiwn carchar.

Busnes ychwanegol i gael ei drafod:

- Monitro cyllideb ar gyfer cylch gorchwyl Pwyllgor Dethol Oedolion.
- Adroddiad y Prif Swyddog Addysg.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA dydd Iau, 3 mis Tachwedd, 2016 am 10.00 am**

**10. Blaengynllun Gwaith Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc (i ddilyn).**

Derbyniwyd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc. Drwy wneud hynny, nodwyd y pwyntiau dilynol:

- Cynhelir cyfarfod arbennig ar y cyd o'r Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Dethol Oedolion ar 22 Tachwedd 2016 am 10.00am.
- Cynhelir cyfarfod cyffredin nesaf y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc ar 8 Rhagfyr 2016 am 2.00pm.
- Cynhelir cyfarfod o'r Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc ar 12 Ionawr 2017 i graffu ar gynigion y gyllideb ar gyfer 2017/18.
- Ar 24 Ionawr 2017 bydd cyfarfod ar y cyd o bob un o'r pedwar Pwyllgor Dethol i graffu ar y Model Darparu Gwasanaeth Amgen.
- Cynhelir seminar Aelodau ar 14 Rhagfyr 2016 parthed yr agwedd Llywodraethiant.
- Ar 6 Chwefror 2017 bydd cyd-gyfarfod o'r Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Dethol Oedolion i graffu ar y drafft Asesiad Anghenion Poblogaeth ar gyfer Sir Fynwy.
- Ar 16 Chwefror 2017 cynhelir cyfarfod cyffredin o'r Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc.
- Bydd y Pwyllgor Craffu yn e-bostio'r adroddiad a'r cyflwyniad i'r Pwyllgor Dethol am y diweddariad Ysgolion 21ain Ganrif oedd i'w ystyried gan y Pwyllgor Dethol mewn cyfarfod blaenorol ond lle nad oedd cworwm.

**11. Busnes y Cyngor a’r Cabinet - Blaengynllun.**

Penderfynwyd derbyn Blaengynllun Busnes y Cyngor a'r Cabinet a nodwyd ei gynnwys.

**12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 8 Rhagfyr 2016 am 2.00pm.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:55**